Multi Agency Public Protection Arrangements

# DE CYMRU



# Adroddiad Blynyddol

# 2021-2022

# Rhagarweiniad




**David Thorne**
**Prif Gwnstabl Cynorthwyol**
**Heddlu De Cymru**
**Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol**

Mae'n bleser gennyf barhau yn fy rôl fel cadeirydd Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA ardal De Cymru.

Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu rhai o'r heriau yr ydym wedi wynebu fel rhanbarth, yn ogystal â rhoi sylw i'r cynnydd positif sydd wedi'i wneud a'r arferion da sydd gennym mewn lle wrth reoli troseddwyr drwy broses MAPPA.

Mae'r ymdeimlad o normalrwydd wedi dychwelyd yn 2022 yn dilyn diwedd cyfyngiadau COVID-19. Fodd bynnag, dyma 'normal newydd' y gymdeithas. Gwyddwn bod nifer o bobl fregus, gan gynnwys troseddwyr, wedi dioddef salwch iechyd meddwl yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn wedi cael effaith ar eu harferion i gamddefnyddio sylweddau a thorri'r gyfraith. O ganlyniad, mae hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y gwaith i reoli troseddwyr. Hefyd, mae dal i fyny ag ymweliadau wyneb i wyneb a sicrhau bod cynlluniau rheoli risg yn aros yn gyfredol yn dal i fod yn her. Fodd bynnag, mae staff pob asiantaeth yn parhau i fod yn benderfynol ac yn hyblyg yn eu hymgais i reoli troseddwyr ac amddiffyn y cyhoedd mewn ffordd effeithiol.

Mae'r Bwrdd Rheoli Strategol yn gyfrifol am graffu ar drefniadau MAPPA ledled y rhanbarth, drwy weithio gydag 'Awdurdodau Cyfrifol' MAPPA; yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Carchardai i barhau i ganolbwyntio ar y brif flaenoriaeth sef amddiffyn y cyhoedd rhag niwed, a hynny gyda chymorth sefydliadau sydd â 'Dyletswydd i Gydweithredu' â MAPPA. Mae ein dau gynghorydd lleyg yn parhau i fod yn 'gyfeillion beirniadol' effeithiol yn sicrhau ein bod yn gwneud beth rydym wedi ymrwymo i'w wneud. Rydym yn hynod o ddiolchgar iddynt am eu cyfraniad, eu hymdrechion a'u hymrwymiad.

Bydd Bwrdd Rhaglen Rheoli Troseddwyr De Cymru hefyd yn ceisio gwneud gwelliannau hir dymor sylweddol i'w ddull gweithredu, gan herio effeithiolrwydd arferion sefydledig ar yr un pryd â chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol i reoli troseddwyr a'u harallgyfeirio oddi wrth fywyd o droseddu. Eleni rydym wedi gweithio'n agos â'r Awdurdodau Cyfrifol ar draws Cymru drwy sefydlu fforwm chwarterol lle gallwn rannu arferion da a thrafod prosesau er enghraifft, adolygiadau achosion difrifol MAPPA fel y gallwn wella arferion a darparu cysondeb. Mae gwneud hyn wirioneddol wedi bod yn werth chweil.

Mae MAPPA wedi datblygu i fod yn fodel eithriadol o effeithiol, cyfarwydd ac uchel ei barch ar gyfer rheoli troseddwyr ar draws y Deyrnas Unedig. Rwyf wedi bod yn dyst i angerdd ac ymrwymiad y rhai hynny sy'n ymgymryd â'u dyletswyddau yn y maes hwn. Rwyf felly yn parhau i fod yn hyderus y gall y cymunedau sydd yn ein rhanbarth fod yn dawel eu meddwl y bydd pob ymdrech posib yn parhau i gael ei wneud i'w cadw nhw'n ddiogel.



## Nicola Davies,

## Cyfarwyddwr Rhanbarthol Cymru, Y Gwasanaeth Prawf

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol MAPPA 2021/22 Bwrdd Rheoli Strategol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd De Cymru.

Mae 2022 wedi bod yn flwyddyn o ddatblygiadau a newid i MAPPA. Wrth i ni barhau i ail-afael ar bethau yn dilyn pandemig COVID-19, mae llwyddiant ac effeithiolrwydd MAPPA yn amlwg i'w weld, ac mae hyn yn dyst i ymrwymiad ac ymroddiad pob asiantaeth i sicrhau bod ein cymunedau'n cael eu hamddiffyn rhag niwed.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith y mae'r Bwrdd Rheoli Strategol wedi'i wneud i wella effeithiolrwydd MAPPA yn ystod y flwyddyn wrth reoli unigolion sydd wedi'u hasesu fel y rhai sy'n peri risg o niwed difrifol. Hefyd, mae'r adroddiad hwn yn gyfle i ni arddangos lefel ein hatebolrwydd i'r cymunedau lleol yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae amddiffyn y cyhoedd a dioddefwyr trosedd wrth wraidd beth mae Awdurdod Cyfrifol MAPPA (yr Heddlu, y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf) yn ceisio cyflawni. Mae popeth rydym yn ei wneud yn canolbwyntio ar sicrhau diogelwch parhaus ein cymunedau. Cefnogir hyn gan gyfraniad gwerthfawr y Ddyletswydd i Gydweithredu ac asiantaethau eraill. Canran fechan o'r holl droseddau y mae'r pedwar heddlu yng Nghymru yn delio â nhw yw troseddau rhywiol a threisgar. Fodd bynnag, mae'r troseddau hyn yn cael effaith ddinistriol ar y dioddefwyr a'r cymunedau. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd i aelodau'r cyhoedd bod yna ymdrech ymrwymedig ar draws yr holl asiantaethau i gyfathrebu a gweithio ar y cyd i gadw pobl yn saff.

Nid yw byth yn bosib cael gwared yn gyfan gwbl â'r holl risgiau a berir gan droseddwyr difrifol. Fodd bynnag, beth allwch ddisgwyl yw bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i leihau'r risg o niwed difrifol i'r cyhoedd gan droseddwyr hysbys a'n bod yn hyrwyddo adsefydlu. Felly, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nid yn unig gwybodaeth ystadegol am y rhai hynny sydd wedi cael eu rheoli dan MAPPA yn ystod y flwyddyn busnes diwethaf, ond mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n ymarferol yn lleol.

Yn adroddiad blynyddol 2020/21, soniwyd am ddatblygiadau sylweddol yn dilyn adolygiad annibynnol o ddulliau rheoli unigolion sy'n gysylltiedig â gwrthderfysgaeth. Yn dilyn hynny, mi wnaeth y Gwasanaeth Prawf greu Adran Diogelwch Gwladol arbenigol, ymroddedig a medrus iawn sy'n darparu lefel uwch o reolaeth ac ymyrraeth ar gyfer yr unigolion mwyaf risg uchel, cymhleth ac uchel eu proffil yn y gymuned.

Yn ystod y flwyddyn fusnes diwethaf, mae Cydlynwyr MAPPA yng Nghymru wedi bod yn gysylltiedig ag ail ddylunio Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer staff y Gwasanaeth Prawf. Mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i ganllawiau MAPPA hefyd sydd wedi arwain at gyflwyniad Fframwaith Polisi Lefel 1 MAPPA, pennod newydd ar Gamdriniaeth Ddomestig a Stelcian a chyflwyniad Categori 4 (Troseddwyr Terfysgol neu Droseddwyr sydd mewn Risg o gyflawni Troseddau Terfysgol). Croesawir y newidiadau hyn ac maent yn brawf o'r ymrwymiad parhaus i sicrhau diogelwch y cyhoedd. Mae'r staff yng Nghymru wedi ymateb ac maent yn parhau i gyfrannu at ymgynghoriadau cenedlaethol ar Ganllawiau MAPPA, er mwyn sicrhau bod yna gynrychiolaeth o Gymru sy'n dylanwadu ar benderfyniadau a newidiadau i bolisïau MAPPA.

Mae cyflawniadau'r Bwrdd Rheoli Strategol yn adlewyrchiad o'r cyfraniadau sylweddol a wnaed gan yr holl asiantaethau sy'n rhan o MAPPA ar draws De Cymru, a hoffwn ddiolch i'n partneriaid sydd wedi cyfrannu i'r trefniadau hyn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae ehangder profiad ac arbenigedd aelodau MAPPA yn eithriadol, ac nid oes amheuaeth ynghylch lefel ymrwymiad asiantaethau i gyflawni'r safonau uchaf. Hyderwn hefyd bod yr adroddiad hwn yn dangos ymrwymiad a phroffesiynoldeb ein staff sy'n gwneud gwaith heriol a chymhleth sydd yn anaml iawn yn dod i sylw'r cyhoedd. Mae eu hymrwymiad yn hanfodol i sicrhau bod ein cymunedau yn aros yn ddiogel.

Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn i chi, gobeithiwn ei fod yn darparu mewnwelediad gwerthfawr i'n gwaith a'i fod yn tawelu eich meddwl mai amddiffyn y cyhoedd ac anghenion dioddefwyr yw ein prif flaenoriaethau o hyd.

## Yr Adran Ddiogelwch Gwladol

Cafodd yr Adran Ddiogelwch Gwladol (NSD) ei sefydlu bron i 2 flynedd yn ôl bellach. Mae'n adran o fewn y Gwasanaeth Prawf sy'n darparu gwell rheolaeth o achosion ac ymyrraeth ar gyfer troseddwyr sy'n oedolion sydd fwyaf cymhleth, sy'n peri'r risg mwyaf ac sydd â phroffil uchel yn y gymuned. Mae'r adran yn darparu gallu canolog a phwrpasol o fewn y Gwasanaeth Prawf ar gyfer y carfannau canlynol o droseddwyr sy'n oedolion:

- • Troseddwyr a gafwyd yn euog o dan y Ddeddf Terfysgaeth/neu a oedd yn gysylltiedig â'r Ddeddf Terfysgaeth
- • Troseddwyr risg terfysgol sy'n cyflwyno bygythiad diogelwch cenedlaethol
- • Troseddwyr Troseddau Trefnedig Difrifol sy'n peri'r risg/niwed mwyaf y mae angen gwell rheolaeth arnynt; a
- • Nifer o achosion CPPC cofrestredig, sef y troseddwyr rhyw neu dreisgar risg uchaf/proffil uchaf sydd o ddiddordeb cenedlaethol.

Caiff troseddwyr achosion NSD eu rheoli yn yr ardal ble maent yn byw oherwydd yn y mwyafrif o achosion dyna ble mae'r risg yn bodoli. Byddwn hefyd wrth gwrs mewn cysylltiad ag ardaloedd eraill y mae gan y troseddwr gysylltiad â nhw wrth gynnal trafodaethau MAPPA. Mae cydgysylltiad rhwng NSD ac Unedau Cyflawni Prawf yn sicrhau cysylltiadau cryf â rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, tai a gwasanaethau adsefydlu lleol. Mae unedau NSD yn cynnwys seicolegwyr fforensig pwrpasol i gefnogi agwedd sy'n wybodus yn seicolegol at reoli risg a hefyd archwilwyr polygraff, i ddarparu gwell monitro o gydymffurfiaeth ag amodau trwydded.
Mae'r NSD yn parhau i weithio gyda thîm cenedlaethol MAPPA, swyddogion heddlu gwrthderfysgaeth a gyda'r Byrddau Rheoli Strategol. Rydym wedi mewnosod yr argymhellion a wnaed yn adolygiad Jonathan Hall 2022 o MAPPA ar gyfer troseddwyr terfysgol. Mae'r rhain yn cynnwys panelau MAPPA i adolygu achosion eithafwyr sy'n cynnwys staff yr heddlu, y gwasanaeth prawf a'r carchardai sy'n arbenigo mewn gwaith gwrthderfysgaeth, ond hefyd mae'n hanfodol bod y panelau yn cynnwys aelodau o asiantaethau lleol allweddol. Bydd panelau MAPPA yn cyfarwyddo defnydd cynyddol o grwpiau craidd MAPPA gan sicrhau bod y gwaith a wneir gydag achosion unigol yn gydlynol ac yn ymatebol.
Mae'r NSD wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â Byrddau Rheoli Strategol i sicrhau trefniadau MAPPA o ansawdd uchel. Bydd y Panelau MAPPA arbenigol yn darparu gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad allweddol i Fyrddau Rheoli strategol a byddant hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant, gwaith archwilio a gweithgareddau arsylwi. Bydd unedau NSD yn adrodd yn ffurfiol i Fyrddau Rheoli Strategol yn rheolaidd, o leiaf bob blwyddyn.
Bydd NSD yn gweithio'n agos â phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid ac yn sicrhau bod ein datblygiadau wedi'u halinio â newidiadau ehangach yn y tirwedd diogelwch cenedlaethol.

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

Cyfres o drefniadau yw MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) i reoli'r risg a gyflwynir gan y troseddwyr rhyw, treisgar a therfysgol gwaethaf (troseddwyr cymwys am MAPPA) o dan ddarpariaethau adrannau 325 i 327B Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

Daw'r trefniadau â gwasanaethau'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai ym mhob un o'r 42 Ardal yng Nghymru a Lloegr at ei gilydd ac fe'i elwir yn Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

Mae gan nifer o asiantaethau eraill Ddyletswydd i Gydweithredu (DTC) â'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd, Timau Troseddwyr Ifanc, Yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Awdurdodau Addysg a Thai Lleol.

Mae'r Byrddau Rheoli Strategol (SMB) Lleol sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol ac asiantaethau DTC yn gyfrifol am gyflwyno MAPPA yn eu hardaloedd. Mae'n ofynnol hefyd i'r Awdurdod Cyfrifol benodi dau Gynghorydd Lleyg i eistedd ar Fwrdd Rheoli Strategol pob ardal MAPPA.

Mae Cynghorwyr Lleyg yn aelodau o'r cyhoedd sydd heb unrhyw gysylltiad â'r gwaith o reoli troseddwyr MAPPA, a benodir gan y Gweinidog. Maent yn gweithredu fel arsyllwyr annibynnol ond gwybodus, a gallant ofyn cwestiynau na fyddai staff proffesiynol sy'n gweithio yn y maes efallai'n meddwl eu gofyn. Maent hefyd yn cyfrannu eu dealltwriaeth a'u persbectif ar y gymuned leol (lle mae'n rhaid iddynt fod yn byw a bod â chysylltiadau cryf) i'r Bwrdd Rheoli Strategol.

### Sut mae MAPPA yn gweithio?

Mae troseddwyr cymwys am MAPPA yn cael eu hadnabod ac mae gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau fel sail i asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg y bobl sy'n eu rheoli neu eu goruchwylio.

Dyna cyn belled ag y mae MAPPA yn mynd yn y rhan fwyaf o achosion. Ond, mewn rhai achosion, mae angen mwy o reolaeth amlasiantaethol strwythuredig. Yn yr achosion hyn cynhelir cyfarfodydd MAPPA rheolaidd lle daw ymarferwyr o'r asiantaethau perthnasol ynghyd.

Mae tri chategori o droseddwyr cymwys am MAPPA:

- **Categori 1** – troseddwyr sy'n destun gofynion hysbysu troseddwyr rhyw
- **Categori 2** – troseddwyr treisgar yn bennaf sydd wedi eu dedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar neu i orchymyn ysbyty; a
- **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan Gategori 1 na 2 ond sy'n peri risg o niwed difrifol ar y pryd.

Cafodd pedwerydd categori ar gyfer troseddwyr terfysgol neu droseddwyr sydd mewn risg o gyflawni troseddau terfysgol ei gyflwyno yn sgil Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 ar ôl y cyfnod a gwmpesir yn yr adroddiad hwn.

Mae tair lefel o reolaeth i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu lle mae fwyaf eu hangen; fel arfer yn ymwneud â risg uwch o niwed difrifol.

- **Lefel 1** yw ble mae'r asiantaeth arweiniol yn rheoli'r troseddwr ac yn rhannu gwybodaeth ac yn cael cefnogaeth gan asiantaethau eraill yn ôl yr angen, ond heb unrhyw gyfarfodydd MAPPA ffurfiol;
- **Lefel 2** yw lle mae angen cynnal cyfarfodydd MAPPA ffurfiol i reoli'r troseddwr;
- **Lefel 3** yw lle mae'r cynlluniau rheoli risg yn gofyn am bresenoldeb ac ymrwymiad adnoddau ar lefel uwch yng nghyfarfodydd MAPPA.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR. System Technoleg Gwybodaeth genedlaethol yw hon i helpu i reoli troseddwyr sy'n peri risg ddifrifol o achosi niwed i'r cyhoedd. Mae defnyddio ViSOR yn ei gwneud yn haws rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau a throsglwyddo gwybodaeth allweddol yn ddiogel pan fydd troseddwyr risg uchel yn symud, gan wella unrhyw fesurau amddiffyn y cyhoedd. Mae ViSOR yn golygu bod staff yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai yn gallu gweithio ar yr un system TG am y tro cyntaf, gan wella ansawdd ac amseroldeb asesiadau risg ac ymyriadau i atal troseddu.

## MAPPA a Therfysgaeth

Mi wnaeth y llywodraeth gyhoeddi Adolygiad Annibynnol o'r MAPPA a ddefnyddir i Oruchwylio Troseddwyr Terfysgol a Throseddwyr sydd mewn Risg o Gyflawni Troseddau Terfysgol ar yr 2il o Fedi 2022 a chyhoeddodd ymateb iddo ar y 9fed o Ragfyr. Mae'r ddwy ddogfen ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/multi-agency-public-protection-arrangements-review. Mi wnaeth yr adroddiad gyflwyno nifer o argymhellion, ac mae nifer ohonynt wedi'u gweithredu drwy Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Dedfrydu 2021 a Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi ail-edrych ar y Canllawiau MAPPA statudol ar gyfer troseddwyr terfysgol.

Mae'r Gwasanaeth Prawf, drwy ei Adran Diogelwch Gwladol, wedi sefydlu gweithlu arbenigol, ymroddedig a medrus iawn sy'n darparu lefel uwch o reolaeth ac ymyrraeth ar gyfer y troseddwyr mwyaf risg uchel, cymhleth ac uchel eu proffil yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys rheoli troseddwyr sy'n gysylltiedig â therfysgaeth a throseddwyr sy'n peri risg o derfysgaeth. Mae'r NSD a Phlismona Gwrthderfysgaeth yn gweithio'n agos â Byrddau Rheoli Strategol lleol i sicrhau bod achosion o derfysgaeth yn cael eu rheoli'n gadarn.

Cyhoeddir pob adroddiad MAPPA o Gymru a Lloegr ar-lein yn: www.gov.uk

# Ystadegau MAPPA

### Troseddwyr cymwys am MAPPA ar 31 Mawrth 2022

| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 | 1662 | 458 | - | 2120 |
| Lefel 2 | 44 | 54 | 20 | 118 |
| Lefel 3 | 5 | 6 | 3 | 14 |
| Cyfanswm | 1711 | 518 | 23 | 2252 |

### Troseddwyr cymwys am MAPPA yn Lefel 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol)

| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 2 | 126 | 96 | 49 | 271 |
| Lefel 3 | 5 | 6 | 3 | 14 |
| Cyfanswm | 131 | 102 | 52 | 285 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr rhyw cofrestredig (RSO) a gafodd rybudd neu euogfarn am dorri gofynion hysbysu** | 22 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr RSO lle penderfynwyd diddymu eu gofyniad hysbysu gydol oes yn dilyn gwneud cais** | 5 |

### Gorchmynion cyfyngu ar gyfer troseddwyr Categori 1

| **Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO), Gorchmynion SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor a Gorchmynion Hysbysu (NO) a osodwyd gan y llysoedd** | |
|---|---|
| SHPO | 118 |
| SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor | 0 |
| NO | 1 |

| | |
|---|---|
| **Nifer y bobl a ddaeth yn destun gofynion hysbysu yn dilyn torri Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO)** | 1 |

### Troseddwyr Lefel 2 a 3 wedi eu dychwelyd i'r carchar

| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Torri Amodau Trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 22 | 26 | 21 | 69 |
| Lefel 3 | 1 | 1 | 0 | 2 |
| Cyfanswm | 23 | 27 | 21 | 71 |
| **Torri Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw (SOPO)** | | | | |
| Lefel 2 | 1 | - | - | 1 |
| Lefel 3 | 0 | - | - | 0 |
| Cyfanswm | 1 | - | - | 1 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm Troseddwyr Rhyw Cofrestredig am bob 100,000 o bobl** | 146 |

Mae'r ffigur hwn wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth cyfrifiad 21 Mawrth 2021, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 28 Mehefin 2022, ac eithrio'r rhai hynny sydd dan ddeg oed.

Yn y gorffennol, rydym wedi seilio'r ffigur hwn ar amcangyfrif o'r boblogaeth canol y flwyddyn (30 Mehefin). Fel y cyfryw, gallai'r ffigur cyfredol fod yn wahanol i'r ffigur cyfatebol sy'n seiliedig ar amcangyfrif o'r boblogaeth breswyl canol 2021, a fydd yn cael ei gyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn hwyrach eleni.

# Sylwebaeth esboniadol ar y tablau ystadegol

## Cefndir MAPPA

Mae cyfanswm y troseddwyr cymwys am MAPPA, yn ôl categori, yn adlewyrchu'r darlun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022 (h.y. ciplun ydyw). Mae gweddill y data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

**(a) Troseddwyr cymwys am MAPPA** – mae yna nifer o droseddwyr a ddiffinnir o dan y gyfraith fel rhai sy'n gymwys am reolaeth MAPPA, oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhyw a threisgar penodol neu oherwydd eu bod ar y pryd yn peri risg o niwed difrifol, er bod y rhan fwyaf yn cael eu rheoli o dan drefniadau Lefel 1 heb gyfarfodydd MAPPA ffurfiol. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys dim ond y troseddwyr cymwys am MAPPA sy'n byw yn y gymuned. Nid ydynt yn cynnwys rhai sydd yn y carchar neu dan glo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

**(b) Troseddwyr sy'n destun Gofynion Hysbysu Troseddwyr Rhyw** – sef y rhai sydd angen hysbysu'r heddlu ynghylch eu henw, cyfeiriad a manylion personol eraill a rhoi gwybod am unrhyw newidiadau sy'n digwydd wedyn (sef y "gofyniad hysbysu"). Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan yr heddlu. Mae'n bosib eu bod hefyd yn cael eu rheoli gan y gwasanaeth prawf neu'r gwasanaethau iechyd os ydynt yn destun trwydded neu orchymyn ysbyty. Mae methu â chydymffurfio â'r gofyniad hysbysu'n drosedd a gall arwain at uchafswm cosb o 5 mlynedd yn y carchar.

**(c) Troseddwyr Treisgar** – mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwyr treisgar a therfysgol a ddedfrydwyd i garchar neu i'w cadw dan glo am 12 mis neu fwy, neu i'w cadw o dan orchymyn ysbyty. Mae hefyd yn cynnwys nifer fach o droseddwyr rhyw nad ydynt yn destun gofynion hysbysu. Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan y Gwasanaeth Prawf, y Tîm Troseddwyr Ifanc neu gan Wasanaethau Iechyd Meddwl.

**(ch) Troseddwyr Peryglus Eraill** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan y ddau gategori cymwys am MAPPA arall, ond sy'n peri risg o niwed difrifol ar y pryd sydd angen ei reoli drwy gyfarfodydd MAPPA. Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan ba un bynnag asiantaeth sydd â'r prif gyfrifoldeb drostynt.

**(d) Torri Trwydded** – bydd troseddwyr sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned ar ôl cyfnod yn y carchar yn cael eu rhoi ar drwydded gydag amodau (o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf). Os na fydd y troseddwr yn cydymffurfio â'r amodau hyn, bydd y Gwasanaeth Prawf yn cymryd camau tor-amod a gallai'r troseddwr gael ei alw'n ôl i'r carchar.

**(dd) Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar fynd dramor)** - mae Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO) a Gorchmynion SHPO interim wedi cymryd lle'r hen Orchmynion Atal Troseddau Rhywiol. Eu pwrpas yw amddiffyn y cyhoedd rhag troseddwyr a gafwyd yn euog o drosedd rhywiol neu dreisgar, ac sy'n peri risg o niwed rhywiol i'r cyhoedd, drwy osod cyfyngiadau a/neu gofynion ar eu hymddygiad. Maent yn gofyn bod y troseddwr yn rhoi eu manylion i'r heddlu (yn unol â Rhan 2 Deddf 2003) drwy gydol cyfnod y gorchymyn.

Rhaid i'r llys fod yn fodlon, ar ôl pwyso a mesur, bod angen y gorchymyn i amddiffyn y cyhoedd (neu unrhyw aelodau penodol o'r cyhoedd) yn y DU, neu blant neu oedolion bregus (neu unrhyw blant neu oedolion bregus penodol) dramor, rhag niwed rhywiol gan y troseddwr. Yn achos gorchymyn a wneir ar gais annibynnol gan Brif Gwnstabl, Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA), Yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP) neu Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MODP), rhaid i'r Prif Gwnstabl/NCA/BTP/MODP allu dangos bod y troseddwr wedi ymddwyn yn y fath fodd ers ei gael yn euog fel bod angen gwneud y gorchymyn.

Y cyfnod lleiaf ar gyfer gorchymyn llawn yw pum mlynedd. Yr isafswm oed yw 10, sef oed cyfrifoldeb troseddol, ond pan fydd y diffynnydd o dan 18 oed, dylid ond ystyried cais am orchymyn mewn amgylchiadau eithriadol.

**(e) Gorchymyn Hysbysu** – mae'n rhaid i unigolion a gafwyd yn euog o gyflawni troseddau rhywiol cymwys dramor gofrestru â'r heddlu er mwyn amddiffyn y

cyhoedd yn y DU rhag y risg a gyflwynir ganddynt. Gall yr heddlu yng Nghymru a Lloegr gyflwyno gorchymyn hysbysu i droseddwr sydd eisoes yn y DU neu sy'n bwriadu dod i'r DU, a rhaid iddo/i hysbysu'r heddlu am ei fanylion o fewn tridiau i'w gael. Mae gan droseddwyr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad.

**(f) Gorchymyn Risg Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar fynd dramor)-**
mae'r Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO) wedi disodli'r Gorchymyn Risg o Niwed Rhywiol (RoSHO) a gallai gael ei wneud ar gyfer unigolyn sydd heb ei gael yn euog o drosedd rywiol neu dreisgar (nac unrhyw drosedd arall) ond sy'n peri risg o niwed rhywiol.

Gellir gwneud y SRO mewn llys ynadon ar gais yr heddlu, NCA, BTP neu MODP pan fydd unigolyn wedi cyflawni gweithred o natur rywiol ac y mae'r llys yn fodlon bod yr unigolyn yn peri risg o niwed i'r cyhoedd yn y DU neu i blant neu oedolion bregus dramor.

Gall SRO wahardd yr unigolyn rhag gwneud rhywbeth a ddisgrifir yn y gorchymyn, gan gynnwys mynd dramor, neu gall osod gofynion ar ei ymddygiad. Rhaid i unrhyw waharddiad a/neu rwymedigaeth fod yn angenrheidiol i amddiffyn y cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol, neu yng nghyswllt mynd dramor, amddiffyn plant neu oedolion bregus rhag niwed rhywiol.

Mae'n ofynnol i unigolyn gyda SRO hysbysu'r heddlu ynghylch ei enw a'i gyfeiriad cartref o fewn tridiau i orchymyn gael ei wneud a hefyd rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon o fewn tridiau.

Gall SRO bara am ddwy flynedd o leiaf ond heb unrhyw uchafswm, ac eithrio unrhyw gyfyngiadau ar fynd dramor sy'n gallu, lle mae'n berthnasol, bara am bum mlynedd ar y mwyaf (ond gall gael ei adnewyddu).

Mae'r safon droseddol o brawf yn parhau i fod yn berthnasol. Gall yr unigolyn sy'n destun y gorchymyn apelio yn ei erbyn a gall yr heddlu neu'r unigolyn dan sylw wneud cais i amrywio, adnewyddu neu ddiddymu'r gorchymyn.

Mae torri SRO yn drosedd, ac o wneud hyn gellir anfon unigolyn i'r carchar am hyd at bum mlynedd. Pan fydd unigolyn yn torri ei SRO, bydd yn dod yn destun gofynion hysbysu llawn.

Erbyn hyn mae manylion unigolyn gyda SRO yn cael eu cofnodi ar VISOR fel Person Peryglus Posib (PDP).

**(ff) Diddymu gofynion hysbysu gydol oes drwy wneud cais -**
mae her gyfreithiol yn 2010 ac ymateb deddfwriaethol o ganlyniad yn golygu bod trefniadau bellach mewn lle sy'n caniatáu i unigolion cymwys wneud cais am adolygiad o'u gofynion hysbysu. Ni fydd unigolion yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn awtomatig. Gall troseddwyr cymwys gyflwyno cais i'r heddlu i adolygu eu gofynion hysbysu penagored. Bydd yr heddlu yn adolygu'r cais ac yn penderfynu a ddylid dileu'r gofynion hysbysu ai peidio. Uwcharolygydd fydd yn gwneud y penderfyniad hwn. Bydd y rhai sy'n parhau i beri risg sylweddol yn aros ar y gofrestr trwy gydol eu hoes, os bydd angen.

Bydd unigolion gyda gofynion hysbysu penagored ond yn dod yn gymwys i ofyn am adolygiad ar ôl bod yn destun gofynion hysbysu penagored am o leiaf 15 mlynedd yn achos oedolion, ac 8 mlynedd yn achos troseddwyr ifanc. Daeth hyn i rym ar 1 Medi 2012 ar gyfer troseddwyr sy'n oedolion.

# Tudalen leol

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - Grŵp Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Mae Cynrychiolwyr o Grŵp Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Adran Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn mynychu cyfarfodydd panel MAPPA fel aelodau iechyd meddwl craidd ar ran Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae Rheolwr Tîm y Tîm Cyfiawnder Troseddol yn mynychu cyfarfodydd Lefel 2 MAPPA. Mae'r Pennaeth Nyrsio a Nyrs Arwain yr Adran Iechyd Meddwl yn mynychu cyfarfodydd Lefel 3 MAPPA a Grŵp Gweithredol MAPPA fel Arweinwyr strategol ar ran y Bwrdd Iechyd.

Mae gan aelodau iechyd meddwl craidd rôl hanfodol i'w chwarae o fewn proses MAPPA o safbwynt y broses o reoli risg gyffredinol pob achos a gyflwynir. Mae aelodau iechyd meddwl y panel yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i aelodau eraill panel MAPPA ar faterion iechyd meddwl ac anableddau dysgu gan gynnwys gydag achosion nad ydynt yn dod o dan ymbarél gwasanaethau Iechyd Meddwl. Maent hefyd yn rhoi eu barn broffesiynol ar bob achos ac yn trafod ac yn amlygu unrhyw broblemau posib o ran rheoli risg. Fe ystyrir eu barn fel rhan o grynodeb risg y cadeirydd ar gyfer pob achos a adnabuwyd.

Mae aelodau iechyd meddwl y panel yn paratoi ar gyfer y cyfarfodydd drwy ymgyfarwyddo eu hunain â'r achos dan sylw, gan gaffael unrhyw wybodaeth hysbys neu berthnasol am yr achos. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ymgysylltiad blaenorol neu gyfredol â gwasanaethau Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu neu wasanaethau eraill y Bwrdd Iechyd sy'n ymwneud â gofal, triniaeth, risg a ffactorau amddiffyn y cyhoedd.

Ar gyfer achosion sydd angen mewnbwn gan wasanaethau Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu neu wasanaethau eraill y Bwrdd Iechyd bydd aelodau iechyd meddwl y panel yn sicrhau presenoldeb aelodau perthnasol o'r Tîm Amlddisgyblaethol sy'n ymwneud â gofalu am, a thrin unigolion er mwyn darparu gwybodaeth i aelodau eraill y panel yn y cyfarfodydd am ddiweddariadau ynghylch asesu a chynnydd o ran gofal a thriniaeth. Pan fydd mater penodol o bersbectif Iechyd Meddwl wedi'i adnabod yn y cyfarfodydd blaenorol bydd yr unigolyn proffesiynol perthnasol yn mynychu cyfarfodydd sydd wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol i ddarparu diweddariadau ar y materion a adnabuwyd yn flaenorol.

Bydd aelodau iechyd meddwl y panel yn rhoi unrhyw rai o'r camau gweithredu ar waith yn dilyn cyfarfodydd MAPPA a byddant yn rhoi diweddariadau i Wasanaethau'r Bwrdd Iechyd a chamau i'w cymryd a deilliannau o'r cyfarfodydd.

Mae Rheolwr Tîm Cyfiawnder Troseddol yn darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth MAPPA ar y cyd â Chydlynydd MAPPA ar gyfer De Cymru. Caiff yr hyfforddiant hwn ei gyflwyno i staff gwasanaethau gofal Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu o fewn Bwrdd Iechyd Bae Abertawe fel bod ganddynt ymwybyddiaeth o broses MAPPA a chyfrifoldebau staff gofal iechyd wrth reoli cleifion sydd angen atgyfeiriad MAPPA neu sy'n rhan o broses MAPPA ar hyn o bryd. Mae gan Reolwr Tîm Cyfiawnder Troseddol hefyd gyfrifoldeb cyffredinol dros atgyfeiriadau MAPPA ac ymholiadau MAPPA a gyflwynir i'r Bwrdd Iechyd ac ef/hi yw'r unigolyn proffesiynol allweddol a adnabuwyd i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr amlasiantaeth sy'n ymwneud â materion ynghylch MAPPA mewn amgylchedd cymunedol a gyda chleifion mewnol.

## Cynghorwyr Lleyg De Cymru

Yn dilyn cwblhau un flwyddyn adrodd lawn ers ein penodi fel Cynghorwyr Lleyg yn Ionawr 2021, rydym wedi gallu atgyfnerthu ein rolau a chyfrannu'n llawnach at oruchwylio'r trefniadau ar gyfer rhanbarth De Cymru.

Er ei bod yn anochel bod y cyfyngiadau a osodwyd yn sgil y pandemig diweddar wedi cyfyngu ar rai gweithgareddau, mae'r defnydd arferol bellach o dechnoleg mynediad o bell wedi parhau i alluogi lefelau disgwyliedig o bresenoldeb yn nghyfarfodydd Lefel 2 a Lefel 3 MAPPA a arsylwyd gennym, ac maent wedi profi'n brosesau effeithiol ac amser-effeithiol sydd wedi caniatáu i asesiadau risg cynhwysfawr, ymarferion rheoli risg a chynllunio wrth gefn barhau. Fel yr awgrymwyd yn adroddiad y llynedd, dyma bellach yw'r model 'busnes fel arfer'.

Er bod ein gweithgareddau wyneb yn wyneb wedi'u heffeithio o hyd oherwydd cyfyngiadau'r pandemig yn ystod y flwyddyn riportio hon, mi wnaethom lwyddo i gyfarfod cynrychiolwyr o'r Timau Cyswllt Dioddefwyr. Roedd y cysylltiadau hyn yn eithriadol o ddefnyddiol ac mi wnaethant ein helpu ni i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'u rolau o fewn MAPPA, ac rydym yn hynod o ddiolchgar am yr amser a roddodd y Rheolwyr a'r Ymarferwyr i ni.

Mae cyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer 2022-23 gyda'r Timau Adeiladau Cymeradwy a MOSOVO, yn enwedig gan bod cynlluniau ar waith i ail-ddylunio'r cyfleusterau adeiladau cymeradwyo yn Abertawe a Chaerdydd a'r angen hanfodol i'r llety gefnogi'r trefniadau a helpu i leihau'r risg ac amddiffyn y cyhoedd.

Un o brif amcanion y ddau ohonom oedd parhau i arsylwi'n rheolaidd ar gyfarfodydd Lefel 2 a 3 MAPPA ar draws De Cymru gan gynnwys y troseddwyr hynny sydd nawr yn cael eu rheoli gan yr Adran Diogelwch Gwladol. Mae'r arsylwadau hyn yn ein galluogi ni i dystiolaethu bod achosion hynod gymhleth unigolion sy'n rhan o MAPPA [sydd yn aml â nifer o anghenion sydd heb gael sylw ac sydd mewn risg uchel o achosi niwed] yn cael eu rheoli'n broffesiynol a bod diogelwch dioddefwyr wastad yn cael y flaenoriaeth uchaf. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud i asesu risg a rheoli risg yn nodedig, ac er mai dyna ddylai ddigwydd, mae'r ffaith ei fod yn digwydd yn hynod galonogol. Mae safon rôl hanfodol y Cadeirydd hefyd i'w nodi, o safbwynt ei fod yn gymwys ac yn gynhwysol.

Mae'r ddau ohonom wedi cymryd rhan weithredol mewn archwiliadau sicrhau ansawdd chwarterol yn ystod y flwyddyn lle buom yn edrych ar sampl o gofnodion cyfarfodydd i ystyried i ba raddau mae agweddau o gydraddoldeb ac amrywiaeth, hawliau dynol a rheoli risg a chynllunio wrth gefn yn rhan o drefniadau MAPPA:

O ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, daethom o hyd i dystiolaeth o arferion cynhwysol cyson ar gyfer troseddwyr a dioddefwyr. Roedd y maes ffocws allweddol yn tueddu i fod yn ymwneud â materion iechyd meddwl a dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, ochr yn ochr â diogelu plant a menywod, ond roeddem yn gallu rhannu enghreifftiau o arfer gorau gyda'r grwpiau gweithredol a strategol ynghylch materion ehangach fel trawsrywedd. Mi wnaethom hefyd ymgynghori â Heddlu De Cymru yn gynnar yn y broses graffu i gael syniadau ar sut y gallwn ddatblygu ein arferion i sicrhau gwell canlyniadau i ychwanegu gwerth i'r broses y gwnaethom ei mabwysiadu.

Yn yr ail archwiliad sicrhau ansawdd, mi wnaethom asesu a oedd modd gweld tystiolaeth o arferion rheoli risg a chynllunio wrth gefn effeithiol a thystiolaeth o gadw at y fformat gofynnol. Yn gyffredinol, roedd y darganfyddiadau'n bositif ac yn dangos arferion asesu a rheoli risg effeithiol, gyda chynlluniau wrth gefn y cytunwyd arnynt yn eu lle i ymdrin â digwyddiadau negyddol neu annisgwyl. Fodd bynnag, nodwyd nifer o feysydd i'w datblygu a sylwadau mwy cyffredinol ac roedd y rhain yn cynnwys: yr angen i sicrhau, lle'r oedd cofnodion yn cynnwys diweddariadau, bod gwybodaeth gynharach yn cael ei dileu pan nad oedd ei hangen; y ffaith y gall fod yn anodd diweddaru cynlluniau rheoli risg pan fo unigolion yn y carchar oherwydd na fu llawer o newid yn eu hamgylchiadau; ac mewn nifer fach o achosion, nad oedd cynlluniau wrth gefn yn defnyddio dull y 'Pedair Colofn' i asesu risg yn llawn.

Trosglwyddwyd canlyniadau'r ddau archwiliad i Grŵp Gweithredol MAPPA a'r Bwrdd Rheoli Strategol yn ogystal â Chadeiryddion MAPPA i'w gweithredu a'u hadolygu lle bo hynny'n angenrheidiol.

Gan mai dim ond un Adolygiad Achos Difrifol MAPPA a godwyd yn ystod y cyfnod riportio,

mi wnaethom gytuno i ymgymryd â'r dyletswyddau hyn bob yn ail, ac felly dim ond un Cynghorydd Lleyg sydd wedi dechrau cyfrannu hyd yma. Bydd y deilliannau a'r argymhellion yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Mae ein cyfradd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol a Grŵp Gweithredol MAPPA wedi rhagori ar y meincnod ac rydym yn rhoi pwys mawr i bob un o'r rhain, gan gyfrannu at yr agenda a chymryd cymaint o ran ag sy'n bosibl ac ymgysylltu fel sy'n briodol â'r broses cynllunio busnes a'r themâu strategol cyffredinol sy'n codi.

Mae'r ffordd y caiff y trefniadau eu rhoi ar waith yn ardal De Cymru yn parhau i greu argraff fawr ar y ddau ohonom, ac mae lefelau ymgysylltiad proffesiynol gan yr amlasiantaethau, yn ogystal ag i ba raddau y mae cynrychiolwyr asiantaethau yn fodlon amddiffyn y cyhoedd yn galonogol iawn. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i'r Cydlynydd a'i hysgrifenyddiaeth sydd wedi ein cefnogi ni i gyflawni ein amcanion personol fel Cynghorwyr Lleyg, fel y cawsant eu pennu a'u monitro gan Gadeirydd ac Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol.

**Cyhoeddir pob adroddiad MAPPA o Gymru a Lloegr ar-lein yn:**
**www.gov.uk**

Gwasanaeth Prawf
Probation Service

SOUTH WALES POLICE
HEDDLU DE CYMRU

HM PRISON SERVICE
GWASANAETH CARCHAR EM